# CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fercher y 1af o Fai 2024 am 8.00yh yn Neuadd Llanwinio.

**PRESENNOL:** Cynghowyr I Saer (Cadeirydd), W Evans, H James, W Evans & D Lewis

**YMDDIHEURIADAU**: Cynghorwyr C Smoothy, S Pask & Cynghorydd Sir Jean Lewis

**COFNODION:** Darllenwyd cofnodion y CCB o'r 17ain o Fai 2023 ac fe'u derbyniwyd yn gywir.

**MATERION YN CODI**: Dim

**ADRODDIAD ARIANNOL:**

Trafododd y Cyngor yr adroddiad ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

| | |
|---|---|
| Cyfrif Trysorydd | £1,439.95 |
| Cyfrif Busnes | £35,426.92 |

Gwnaeth y Cyngor gymeradwyo yr adroddiad ariannol am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2024.

**ETHOL CADEIRYDD:**

Gwnaeth y Cynghorwyr ethol y Cynghorydd Chris Smoothy fel Cadeirydd yn ei absenoldeb.

**ETHOL IS-GADEIRYDD:**

Gwnaeth y Cynghorwyr ethol y Cynghorydd Sarah Pask fel Is-Gadeirydd yn ei habsenoldeb.

Byddai'r clerc yn gwirio gyda'r Cynghorwyr eu bod yn derbyn y swyddi uchod.

**APWYNTIO PWYLLGORAU:**

Etholwyd y Cadeirydd ac yr Is-Gadeirydd  i eistedd ar y pwyllgor Hawliau Ffyrdd.

Etholwyd pob Cynghorydd i eistedd ar y pwyllgor Asedau.

**ADOLYGU POLISIAU:**

Roedd y rheolau sefydlog a'r rheolau ariannol priodol mewn lle.

Nid oedd unrhyw asedau newydd i ychwanegu.

Roedd y swm yswiriant yn briodol ond byddai'r clerc yn diweddaru wedi i offer newydd ycae chwarae gael ei gwblhau.

Roedd aelodaeth y Cyngor o gyrff eraill yn gyfamserol.

Nid oedd eisiau unrhyw newidiadau i drefn cwynion y Cyngor.

Roedd trefniadau y Cyngor i ddelio efo ceisiadau a wnaed dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r Rheol Diogelu Data Cyffredinol 2018 yn gyfamserol.

Cytunwyd i'r Clerc medru gwneud taliadau banc uniongyrchol trwy bancio ar-lein yn dilyn cymeradwyiaeth o'r anfonebau. Byddai cyflog y clerc a taliadau i Cyllid a Thollau ei Mawrhydi yn cael eu gwneud yn fisol/cwarterol ac holl taliadau eraill yn dilyn cymeradwyiaeth gan y Cynghorwyr.

**CYFLOG Y CLERC:**

Gwnaeth y Cynghorwyr gymeradwo gadw cyflog y clerc yn £4,200 gyda taliadau fisol uniongyrchol.

**ASESIAD RISG:**

Cafodd yr asesiad risg ei adolygu gan y Cyngor a'i gymeradwyo.

**LWFANS CYNGHORWYR:**

Dosbarthwyd y ffurflennu optio-allan i'r Cynghorwyr.

**ADRODDIAD BLYNYDDOL:**

Cafodd yr adroddiad drafft am 2023-2024 ei drafod a'I dderbyn.

**CYNLLUN BIOAMRYWIAETH:**

Trafodwyd y cynllun drafft am 2024-2025 ac fe'i gymeradwywyd.